TAG SAFON UWCH

CBAC TAG SAFON UWCH mewn

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

# DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL - UNED 5

Addysgu o 2020
I'w ddyfarnu o 2022

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# Cynnwys

Tudalen

## Arholiadau

UNED 5: Safbwyntiau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion

| | |
|---|---|
| Deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw | 3 |
| Papur cwestiynau | 5 |
| Cynllun marcio | 20 |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**TAG SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**UNED 5**

**SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR YMDDYGIAD OEDOLION**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**DEUNYDD WEDI'I RYDDHAU YMLAEN LLAW**

**I'W GYFLWYNO I YMGEISWYR**
**O 1 MAWRTH 20xx**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Ni** allwch fynd â'r deunydd hwn nac unrhyw ddeunydd ymchwil cysylltiedig i mewn i'r arholiad gyda chi.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae'r wybodaeth ar y tudalen nesaf yno i'ch helpu i baratoi ar gyfer Adran A yn yr arholiad Safbwyntiau Damcaniaethol ar Ymddygiad Oedolion.

Bydd y cwestiynau yn Adran A yr arholiad Safbwyntiau Damcaniaethol ar Ymddygiad Oedolion yn ymwneud ag astudiaeth achos sydd wedi'i darparu fel rhan o'r papur cwestiynau.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Mae amlinelliad o'r **cyd-destun ar gyfer Adran A** yn yr arholiad Uned 5 ar gyfer haf xx i'w weld isod.

Mae Sam yn oedolyn ifanc sy'n dod o gefndir cymhleth sydd wedi gadael yr ysgol heb lawer o gymwysterau.

Ar hyn o bryd, mae Sam yn ddi-waith ac yn byw gartref gyda'i fam, ei dad a'i chwaer ifancaf sy'n mynd i'r coleg lleol.

Mae rhieni Sam yn poeni am ei ddyfodol. Mae ei fam, Sue, yn poeni am iechyd meddwl a llesiant Sam ac mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant Sue ei hun.

Ar ôl ymweld â'i feddyg teulu, atgyfeiriwyd Sam at gwnselydd.

Er mwyn paratoi ar gyfer Adran A yn y papur arholiad Uned 5, rydych chi'n cael ei cynghori i ymchwilio i'r canlynol:

- ffactorau sy’n effeithio ar ymddygiad oedolion
- pwysigrwydd ac effeithiau gwydnwch wrth ddelio â lleoliadau a sefyllfaoedd gofal
- damcaniaethau allweddol sy'n ymwneud â deall a rheoli ymddygiadau penodol
- dulliau allweddol mewn ymarfer sy'n ymwneud â datblygiad ac ymddygiad oedolion.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | | | | | Rhif yr Ymgeisydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**TAG SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT**

**UNED 5**

**SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL AR YMDDYGIAD OEDOLION**

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**2 awr 30 munud**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **BOB** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Peidiwch â defnyddio pensil na beiro gel.

Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
Dylech rannu eich amser yn unol â hynny.

100 yw cyfanswm y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen i chi ysgrifennu eich atebion mewn Cymraeg da a'u cyflwyno'n drefnus. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys y defnydd priodol o atalnodi a gramadeg, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn 5.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Astudiaeth achos i'w defnyddio gyda chwestiynau 1 a 2 yn Adran A**

Mae Sam, sy'n 20 oed, wedi bod yn defnyddio nifer o wasanaethau gofal a chymorth am y rhan fwyaf o'i fywyd.

Fel plentyn, roedd ymddygiad Sam yn aml yn heriol. Roedd yn fyfyriwr galluog, ond nid oedd gwersi o ddiddordeb iddo a chafodd ei absenoldeb rheolaidd o'r ysgol effaith andwyol ar ei gynnydd.

Nid oedd gan Sam lawer o gymwysterau pan adawodd yr ysgol. Mae wedi cael tair swydd tymor byr y gwnaeth eu mwynhau a'u cyflawni'n llwyddiannus, ond ar hyn o bryd, mae'n ddi-waith.

Mae gan Sam nifer bach o ffrindiau o'r un oedran ag ef ac mae'n byw gyda'i rieni a'i chwaer ifancaf, Kayleigh, sy'n astudio mewn coleg lleol er mwyn dod yn gynorthwyydd addysgu cymwys. Mae rhieni Sam yn aml yn dweud wrth bobl pa mor falch ydyn nhw o gyflawniadau Kayleigh.

Mae rhieni Sam yn poeni amdano gan ei fod wedi bod yn treulio mwy o amser ar ei ben ei hun yn ei ystafell yn ddiweddar yn hytrach na mynd i gwrdd â'i ffrindiau. Yn y gorffennol, mae Sam wedi hunan-niweidio ac maen nhw'n meddwl bod perygl y gallai hunan-niweidio eto yn dilyn cyfweliadau aflwyddiannus am swyddi.

Mae gan rieni Sam berthynas anodd a hanes o ddangos ymddygiad treisgar neu sarhaus tuag at ei gilydd ar adegau.

Mae rhai o'i brofiadau bywyd a'i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys achosion o fwlio gan ei dad, wedi effeithio ar wydnwch Sam.

Cafodd Kayleigh ei geni pan oedd Sam yn 13 mis oed. Roedd Sue, mam Sam, wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â gofynion gofalu am ddau blentyn ifanc iawn ac er mwyn cael seibiant, byddai'n aml yn gadael Sam gyda'i mam. Treuliodd Sam gryn dipyn o amser yn cael gofal gan ei fam-gu ar ochr ei fam tan i'w fam-gu farw pan oedd Sam yn 5 oed. Mae ganddo lawer o atgofion hapus o'r cyfnod a dreuliodd gyda'i fam-gu, ac mae'n aml yn sôn am y cyfnod hwnnw.

Mae Sue yn teimlo'n isel ar hyn o bryd ac yn poeni am ddyfodol Sam. Mae hi wedi bod yn ei chael hi'n anodd cysgu gyda'r nos.

Oherwydd y pryderon hyn am ymddygiad a llesiant Sam, mae Sue wedi dweud wrtho am fynd i weld ei feddyg teulu. Yn ystod yr apwyntiad gyda'r meddyg teulu, mae Sam yn siarad yn agored ac yn dweud ei fod am gael dyfodol da. Mae Sam yn awyddus i drawsnewid ei fywyd ond dydy o ddim yn gwybod sut i wneud hynny.

Gyda chytundeb Sam, mae ei feddyg teulu wedi ei atgyfeirio at gwnselydd lleol sy'n ffafrio dull seicodynamig.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN A**

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

**1.** Darllenwch yr astudiaeth achos ar Sam ac atebwch y cwestiynau isod.

(a) Amlinellwch **dri** o'r ffactorau a allai fod wedi effeithio ar amgylchiadau bywyd Sam ac ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(b) Disgrifiwch sut gall y ddamcaniaeth ymlyniad seicodynamig ddylanwadu ar ddatblygiad oedolion. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(c) Esboniwch sut gallai'r dull seicodynamig helpu Sam drwy archwilio cysylltiadau rhwng ei brofiadau ef ei hun a'i ymddygiad. [8]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**2.** Mae Sue, mam Sam, yn teimlo'n isel ac yn ei chael hi'n anodd cysgu gyda'r nos ond nid yw hi am gymryd meddyginiaeth. Mae hi wedi cysylltu ag elusen iechyd meddwl leol i gael cyngor. Mae staff yr elusen yn defnyddio'r dull dyneiddiol yn eu gwaith.

(a) Aseswch werth defnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(b) Disgrifiwch y ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi a thrafodwch sut gallan nhw ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a'i gwydnwch. [14]

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B

*Atebwch **bob** cwestiwn.*

**3.** Mae Dafydd yn ddyn 23 oed ac mae ganddo anableddau dysgu.

(a) Disgrifiwch sut gallai anabledd dysgu ddylanwadu ar ymddygiad. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(b) Gall newidiadau i'w drefn ddyddiol gynhyrfu Dafydd.

Esboniwch pam ei bod yn bwysig i Dafydd ddod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(c) Aseswch fanteision posibl defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. [8]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**4.** Mae Marion yn 68 oed ac mae angen llawdriniaeth arni hi i gael clun newydd. Mae Marion wedi bod yn byw â gorbryder am y rhan fwyaf o'i bywyd ac mae'n gwrthod mynd i'r ysbyty.

Mae meddyg Marion yn poeni am ei hiechyd a'i hunan-barch ac wedi ei chynghori i gael therapi i'w helpu i oresgyn yr ofnau sydd ganddi.

(a) Esboniwch sut gall hunan-barch ddylanwadu ar ddatblygiad seicolegol. [6]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(b) Mae Marion wedi penderfynu ymuno â grŵp hunangymorth i'w helpu i reoli ei gorbryder.

Disgrifiwch fanteision ymuno â grŵp hunangymorth i helpu rhywun i reoli ei gorbryder. [8]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

(c) Mae Marion hefyd wedi penderfynu dilyn cyngor ei meddyg ac mae wedi gwneud apwyntiad i weld cwnselydd sy'n defnyddio therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT).

Gwerthuswch fanteision ac anfanteision therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) i Marion. [8]

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

…………………………………………………………………………………………..

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**5.** Mae Edith yn 91 oed ac mae dementia arni hi. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty ar ôl cwympo. Pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty, dywedodd ei theulu ei bod weithiau'n ceisio bwrw pobl.

Ar ôl cyfarfod â'r staff, cytunwyd y dylai Edith ymuno â'r 'Cynllun Pili Pala', sef dull cadarnhaol a rhagweithiol o ofal a chymorth sydd ar gael yn yr ysbyty.

Disgrifiwch bwrpas defnyddio dull cadarnhaol a rhagweithiol a dadansoddwch effaith bosibl defnyddio'r dull hwn i gefnogi oedolion ag ymddygiad sy'n herio. [18]

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Parhad yn unig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUN MARCIO**

## Canllawiau i arholwyr

### Marcio cadarnhaol

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi clod am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ateb da iawn gael marciau llawn ac i ateb gwael iawn gael dim marciau. Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Mae cynlluniau marcio yn aml yn rhestru pwyntiau y gellir eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Nid yw'r rhestr yn un gwbl gyflawn. Mae cynnwys *'Dylid rhoi credyd am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid yw cwestiwn yn gofyn yn benodol am rywbeth, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr am ateb sy'n gywir ond wedi'i fynegi yng ngeiriau'r ymgeisydd ei hun.

### Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Ar gyfer cwestiynau a gaiff eu marcio yn seiliedig ar fandiau, mae'r cynlluniau marcio mewn dwy ran, sef y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion ymgeiswyr. Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodwyd uchod, ni fwriedir i gynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac ni ddylai ymgeiswyr orfod cynnwys yr holl gynnwys dangosol i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio, rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf. Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni roddir unrhyw farciau.

Mewn TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd pob cwestiwn yn ymdrin ag un amcan asesu neu fwy: o AA1, AA2 neu AA3. Lle y bo'n briodol, mae'r grid asesu yn isrannu cyfanswm y marciau y gellir eu dyrannu i gwestiwn yn amcanion asesu unigol. Dangosir y rhain mewn bandiau yn y cynllun marcio. Ar gyfer pob amcan asesu, bydd disgrifyddion yn dangos y sgiliau a'r rhinweddau gwahanol ar y lefel briodol.

Asesir ymatebion ymgeiswyr i gwestiynau yn erbyn yr amcanion asesu perthnasol. Lle bo cwestiwn yn ymdrin â mwy nag un amcan asesu, gall ymgeiswyr gyflawni gwahanol fandiau o fewn y cwestiwn hwnnw. Yn yr achosion hyn, dyfernir marc am bob amcan asesu ac wedyn caiff y marciau hynny eu hadio at ei gilydd er mwyn rhoi marc cyffredinol ar gyfer y cwestiwn.

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hynny'n golygu, ar gyfer ymateb pob ymgeisydd, bod marciau'n cael eu cronni am arddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol: nid ydyn nhw'n cael eu tynnu o uchafswm oherwydd gwallau neu hepgoriadau.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso’r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i’r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i’r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid mabwysiadu dull ‘ffit orau’ er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai’r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai’r marc a ddyfernir yn agos at ben uchaf band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Wrth safoni (cynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai’r arholwyr farcio’r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau’r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Rhaid i'r arholwyr gofio bod angen cyfeirio'n ôl at yr ateb wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a bennir yn briodol.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Adran A**

| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm Marciau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | *Darllenwch yr astudiaeth achos ar Sam ac atebwch y cwestiynau isod.* | | | | | |
| | (a) | *Amlinellwch* ***dri*** *o'r ffactorau a allai fod wedi effeithio ar amgylchiadau bywyd Sam ac ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl.* | 6 | | | 6 |
| | | Dyfarnwch **hyd at 2 farc** am bob ffactor cywir yn yr astudiaeth achos a allai fod wedi effeithio ar amgylchiadau bywyd Sam ac ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl.<br><br>**Dyfarnwch 1 marc** am amlinelliad sylfaenol yn rhoi rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau a allai fod wedi effeithio ar amgylchiadau bywyd Sam ac ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl.<br><br>**Dyfarnwch 2 marc** am amlinelliad da yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffactorau a allai fod wedi effeithio ar amgylchiadau bywyd Sam ac ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw dri o'r canlynol:<br>• teulu – perthnasoedd, genedigaeth chwaer Sam, statws Sam yn y teulu<br>• diffyg ffrindiau – mae hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd gan Sam i gymdeithasu â phobl sydd â'r un diddordebau ag ef<br>• ynysigrwydd – mae Sam yn treulio mwy o amser ar ei ben ei hun yn ei ystafell yn hytrach nag yn rhyngweithio â theulu/ffrindiau<br>• stereoteipio – yn ymwneud ag ymddygiad Sam oedd yn heriol pan oedd Sam yn yr ysgol, neu ei ddiffyg cymwysterau<br>• diffyg addysg/cymwysterau – yn cyfyngu ar y dewis o gyfleoedd am swyddi sydd ar gael i Sam<br>• modelau rôl – nid yw'n ymddangos bod Sam wedi cael modelau rôl cadarnhaol yn ei deulu yn ystod y cyfnod pan oedd yn tyfu i fyny<br>• gallai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod – yn cynnwys bwlio gan ei dad, fod wedi effeithio ar Sam yn y tymor hir/gall yr effeithiau hyn aros gydag unigolyn drwy gydol ei fywyd.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA 3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch sut gall y ddamcaniaeth ymlyniad seicodynamig ddylanwadu ar ddatblygiad oedolion.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae damcaniaeth ymlyniad seicodynamig yn disgrifio sut byddai'r bond cariad rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn, pe byddai'r bond hwnnw o ansawdd gwael, yn achosi niwed seicolegol i'r plentyn ac yn cael effeithiau parhaus arno fel oedolyn, megis:<br><br>• gallai achosi niwed emosiynol, gan arwain at anallu i garu neu ddangos hoffter<br>• gallai plentyn hefyd fethu â dysgu'n iawn yn yr ysgol, gall hyn effeithio ar ei gyflawniad academaidd a'i gyfleoedd o ran cyflogaeth yn y dyfodol fel oedolyn<br>• gall plentyn fod yn fwy tebygol o droseddu fel oedolyn<br>• gall arwain at anallu i ffurfio perthynas gariadus â phartner fel oedolyn<br>• gall arwain at fethu â gwneud synnwyr o berthnasoedd â phobl eraill.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gall damcaniaeth ymlyniad seicodynamig ddylanwadu ar ddatblygiad oedolion<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cyswllt rhwng ansawdd y bond cariad rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn a'r dylanwad posibl ar ddatblygiad oedolion. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall damcaniaeth ymlyniad seicodynamig ddylanwadu ar ddatblygiad oedolion<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cyswllt rhwng ansawdd y bond cariad rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn a'r dylanwad posibl ar ddatblygiad oedolion. |
| 1 | **1-2 farc**<br><br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall damcaniaeth ymlyniad seicodynamig ddylanwadu ar ddatblygiad oedolion<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cyswllt rhwng ansawdd y bond cariad rhwng rhiant/gofalwr a phlentyn a'r dylanwad posibl ar ddatblygiad oedolion. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Esboniwch sut gallai'r dull seicodynamig helpu Sam drwy archwilio cysylltiadau rhwng ei brofiadau ef ei hun a'i ymddygiad.* | | 8 | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>• byddai'r dull seicodynamig yn defnyddio dulliau seicdreiddio i helpu Sam<br>• gall seicdreiddio helpu Sam i fynd ati'n araf i ystyried materion heb eu datrys<br>• mae'r dull seicodynamig yn seiliedig ar y gred bod profiadau yn ystod plentyndod yn cael dylanwad sylweddol ar y meddwl anymwybodol. Gallai hyn helpu Sam oherwydd gallai ddatgelu materion o'i orffennol a'i helpu i ddod o hyd i strategaethau ymdopi er mwyn ymdrin â nhw, a gallai ei alluogi i symud ymlaen â'i fywyd<br>• gall dadansoddwr ddefnyddio dulliau rhyddgysylltu, breuddwydion, hunllefau a ffantasïau'r unigolyn i ystyried yr achosion o wrthdaro anymwybodol sy'n achosi'r problemau a'r symptomau. Yn achos Sam, gallai'r strategaethau hyn greu cysylltiad â rhywbeth yn y gorffennol sy'n golygu nad yw'n gallu ymdopi â'i sefyllfa bresennol.<br>• mae dadansoddwr yn dehongli achosion o wrthdaro anymwybodol ac yn dod â nhw i ymwybyddiaeth yr unigolyn er mwyn iddo allu eu deall, ymdrin â nhw a'u datrys. Os gall Sam ddarganfod pa brofiad(au) bywyd sydd wedi achosi iddo hunan-niweidio, mae'n bosibl y gallai newid ei fywyd<br>• wrth i'r materion sydd heb eu datrys ganddo gael eu datgelu, gall y broses seicdreiddio fod yn heriol iawn i Sam.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gellir cymhwyso'r dull seicodynamig yn ymarferol at sefyllfa Sam<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gallai egwyddorion seicodynamig archwilio'r cysylltiadau rhwng profiadau Sam a'i ymddygiad. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gellir cymhwyso'r dull seicodynamig at sefyllfa Sam<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gallai egwyddorion seicodynamig archwilio'r cysylltiadau rhwng profiadau Sam a'i ymddygiad. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gellir cymhwyso'r dull seicodynamig yn ymarferol at sefyllfa Sam<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gallai egwyddorion seicodynamig greu cysylltiadau rhwng profiadau Sam a'i ymddygiad. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gellir rhoi'r dull seicodynamig ar waith yn sefyllfa Sam<br>• ychydig iawn o ddealltwriaeth o sut gallai egwyddorion seicodynamig greu cysylltiadau rhwng profiadau Sam a'i ymddygiad. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.** | *Mae Sue, mam Sam, yn teimlo'n isel ac yn ei chael hi'n anodd cysgu gyda'r nos ond nid yw am gymryd meddyginiaeth. Mae hi wedi cysylltu ag elusen iechyd meddwl leol i gael cyngor. Mae staff yr elusen yn defnyddio'r dull dyneiddiol yn eu gwaith*. | | | | | |
| | (a) | *Aseswch werth defnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue.* | | | 6 | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r dull dyneiddiol, a ddatblygwyd gan Rogers, yn pwysleisio'r syniad bod gan bob unigolyn duedd gynhenid i dyfu a datblygu – y duedd wireddu. Yn ddelfrydol, bydd unigolyn yn defnyddio'r duedd wireddu i ddatblygu hunangysyniad cadarnhaol ac effeithiol sy'n ei alluogi i fyw bywyd hapus a diogel.<br><br>Gwerth defnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue yw:<br>• bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w phrofiadau unigol ei hun<br>• bod unrhyw therapi sy'n deillio o hynny yn cynnwys ffocws cyfannol er mwyn deall a helpu Sue<br>• nad oes unrhyw arbenigwyr sy'n gallu rhoi diagnosis o'r hyn sy'n bod ar Sue, ei phrofiad unigol ei hun sy'n ganolog i'w therapi<br>• dull anghyfarwyddol yw hwn a fydd yn ei gwneud yn haws i Sue ac yn ei pharchu o ran gosod ei nodau ei hun a gwneud penderfyniadau<br>• y bydd Sue yn cael ei hystyried yn 'arbenigwr arni hi ei hun', a bydd hi'n hunanymwybodol<br>• nid yw'r dull hwn yn un ymwthiol, mae'n ddull sy'n sensitif i deimladau a phrofiadau Sue<br>• nid yw'r dull hwn yn barnu Sue a bydd yn osgoi ei labelu<br>• y bydd Sue yn cael ei hatgoffa bod ganddi ddewis a rheolaeth dros ei bywyd a'i chyfrifoldeb cyffredinol hi felly yw'r dewis hwnnw.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Asesiad da iawn sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am werth y dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue<br>• ymdriniaeth hyderus ag egwyddorion y dull dyneiddiol a'r gwerth posibl i Sue. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am werth y dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion y dull dyneiddiol a'u gwerth posibl i Sue. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o dystiolaeth o farnau am werth y dull dyneiddiol i gefnogi llesiant Sue<br>• rhywfaint o ymdriniaeth ag egwyddorion y dull dyneiddiol a'r gwerth posibl i Sue. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch y ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi a thrafodwch sut gallan nhw ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a'i gwydnwch.* | 6 | | 8 | 14 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ffactorau cymdeithasegol fel:<br>• priodas anhapus<br>• perthynas dreisgar<br>• anawsterau yn ymdopi â Sam pan oedd yn tyfu i fyny<br>• poeni am ddyfodol Sam<br>• magu chwaer Sam yn llwyddiannus<br>• marwolaeth ei mam.<br><br>Dylanwadau (a allai fod yn rhai cadarnhaol neu negyddol) ar iechyd emosiynol, llesiant a gwydnwch Sue fel:<br><br>• dod yn fwy gwydn a gallu ymdopi'n well â sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol / dod yn llai gwydn a gallu ymdopi llai â sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol, a'r effaith bosibl ar iechyd emosiynol a llesiant<br>• datblygu hunangysyniad cadarnhaol am ei bod bellach yn fwy gwydn ac yn gallu ymdopi / datblygu hunangysyniad negyddol am ei bod hi'n llai gwydn ac yn methu ymdopi, a'r effaith bosibl ar iechyd emosiynol a llesiant<br>• dod yn fwy gwydn i straen / dod yn llai gwydn i straen, a'r effaith bosibl ar iechyd emosiynol a llesiant.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau Band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br>Dyfernir 6 marc fel yn achos band marciau 3 | **7-8 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am sut gallai'r ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a'i gwydnwch<br>• ystyriaeth hyderus a manwl o ffactorau perthnasol, gan archwilio eu dylanwad posibl. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ffactorau cymdeithasegol y gall Sue fod wedi'u profi<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gallai ffactorau cymdeithasol ddylanwadu ar iechyd, llesiant a gwydnwch Sue. | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am sut gallai'r ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a'i gwydnwch<br>• ystyriaeth drylwyr o ffactorau perthnasol, gan archwilio eu dylanwad posibl. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r ffactorau cymdeithasegol gall Sue fod wedi'u profi<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gallai ffactorau cymdeithasol ddylanwadu ar iechyd, llesiant a/neu wydnwch Sue. | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am sut gallai ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a/neu ei gwydnwch<br>• ystyriaeth syml o ffactorau perthnasol yn bennaf, gan archwilio eu dylanwad posibl. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ffactorau seicolegol y gallai Sue fod wedi'u profi<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gallai ffactorau cymdeithasol ddylanwadu ar iechyd, llesiant neu wydnwch Sue. | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o dystiolaeth o farnau am sut gallai'r ffactorau cymdeithasegol mae Sue wedi'u profi ddylanwadu ar ei hiechyd emosiynol, ei llesiant a'i gwydnwch<br>• ychydig iawn o ystyriaeth o ffactorau a'u dylanwad posibl. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| **Adran B** |
|---|

| **Cwestiwn** | | **Ateb** | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm Marciau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.** | *Mae Dafydd yn ddyn 23 oed ac mae ganddo anableddau dysgu.* | | | | | |
| | (a) | *Disgrifiwch sut gallai anabledd dysgu ddylanwadu ar ymddygiad.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall yr atebion gyfeirio at anabledd dysgu yn cael dylanwad cadarnhaol neu negyddol ar ymddygiad. Er enghraifft, gall yr unigolyn:<br>• fod yn fwy myfyriol<br>• dadansoddi sefyllfaoedd cyn iddo ymateb<br>• osgoi rhyngweithio cymdeithasol<br>• mae'n hawdd tynnu eu sylw<br>• arddangos gorfywiogrwydd<br>• bod yn fyrbwyll<br>• ymddangos yn anghwrtais am nad yw'n deall ciwiau cymdeithasol oddi wrth bobl eraill<br>• bod yn amhriodol wrth ryngweithio ag eraill<br>• teimlo'n rhwystredig a cholli ei dymer yn hawdd<br>• bod yn anhrefnus.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| **Band** | **AA1** |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gallai anabledd dysgu ddylanwadu ar ymddygiad<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau perthnasol. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gallai anabledd dysgu ddylanwadu ar ymddygiad<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau perthnasol. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gallai anabledd dysgu ddylanwadu ar ymddygiad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Gall newidiadau i'w drefn ddyddiol gynhyrfu Dafydd.*<br><br>*Esboniwch pam ei bod yn bwysig i Dafydd ddod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>pwysigrwydd sicrhau bod Dafydd yn dod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd fel na fydd yn:<br>• datblygu hunangysyniad negyddol<br>• teimlo o dan bwysau ac yn methu ag ymdopi<br>• profi iselder<br>• teimlo ar yr ymylon ac yn cael ei allgau'n gymdeithasol<br>• dechrau hunan-niweidio<br>• arddangos ymddygiad heriol<br>• effeithio ar lesiant pobl eraill.<br><br>Bydd dod yn fwy gwydn yn galluogi Dafydd i wneud y canlynol:<br>• ymaddasu i sefyllfaoedd newidiol<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd<br>• dod yn fwy hyderus ac annibynnol<br>• cyflawni ei botensial.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o pam ei bod yn bwysig i Dafydd ddod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd<br>• dealltwriaeth hyderus o fanteision posibl gwella gwydnwch Dafydd mewn sefyllfaoedd newydd. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o pam ei bod yn bwysig i Dafydd ddod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o fanteision posibl gwella gwydnwch Dafydd mewn sefyllfaoedd newydd. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o pam ei bod yn bwysig i Dafydd ddod yn fwy gwydn wrth ymdrin â sefyllfaoedd newydd<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o fanteision posibl gwella gwydnwch Dafydd mewn sefyllfaoedd newydd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Aseswch fanteision posibl defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r system gefnogi 'goleuadau traffig' yn gynllun cefnogi ymddygiad sy'n defnyddio codau lliw er mwyn ceisio egluro'r gwahanol gamau o ymddygiad. Mae manteision defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol yn cynnwys:<br>• mae'r cynllun yn canolbwyntio ar hybu iechyd cyfannol yn hytrach na chanolbwyntio ar ymddygiad yn unig<br>• dylai leihau angen unigolyn i ddibynnu ar ymddygiad heriol<br>• dylai helpu unigolyn i ddeall pa ymddygiad sy'n dderbyniol a pha ymddygiad sydd ddim yn dderbyniol mewn gwahanol sefyllfaoedd<br>• dylai unigolyn ddysgu sgiliau newydd a ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu<br>• dylai staff cefnogi fod yn fwy ymwybodol o'r trigeri a allai gynhyrfu unigolyn ac felly osgoi'r trigeri hynny<br>• dylai staff cefnogi fod yn fwy parod i nodi rhybuddion cynnar fod unigolyn yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus (a'i fod o bosibl ar fin ymddwyn mewn ffordd heriol) a byddant yn gwybod pa gamau i'w cymryd er mwyn ymyrryd yn llwyddiannus<br>• os daw ymddygiad unigolyn yn heriol, dylai staff cefnogi fod yn ymwybodol o'r strategaethau adweithiol mwyaf addas y gallent eu defnyddio i reoli ei ymddygiad mor ddiogel ac mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau ei fod ef a phobl eraill o'i amgylch yn ddiogel.<br><br>Gallai sylwadau gwerthusol gynnwys cyfeirio at liniaru effaith neu debygolrwydd ymddygiadau negyddol, fel:<br>• atal ymddygiad heriol rhag gwaethygu<br>• staff cefnogi nad ydynt yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n gweithio fel triger i achosi ymddygiad heriol unigolyn<br>• unigolyn nad yw'n dysgu nac yn deall beth sy'n gyfystyr ag ymddygiad annerbyniol<br>• peryglu diogelwch yr unigolyn (a'r staff sy'n ei gefnogi).<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Asesiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am fanteision defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl â'r system a'i manteision posibl. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Asesiad da sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am fanteision defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth drylwyr â'r system a'i manteision posibl. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Asesiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am fanteision defnyddio'r system 'goleuadau traffig' i gefnogi oedolion i ddatblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol<br>• ymdriniaeth syml â'r system a/neu ei manteision posibl. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Asesiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o dystiolaeth o farnau am fanteision defnyddio'r system goleuadau traffig<br>• ychydig iawn o ymdriniaeth o'r system /neu ei manteision posibl. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

<table>
<tr><th colspan="2">Cwestiwn</th><th>Ateb</th><th>AA1</th><th>AA2</th><th>AA3</th><th>Cyfanswm Marciau</th></tr>
<tr><td>4.</td><td colspan="2">Mae Marion yn 68 oed ac mae angen llawdriniaeth arni hi i gael clun newydd. Mae Marion wedi bod yn byw â gorbryder am y rhan fwyaf o'i bywyd ac mae'n gwrthod mynd i'r ysbyty.<br><br>Mae meddyg Marion yn poeni am ei hiechyd a'i hunan-barch ac wedi ei chynghori i gael therapi i'w helpu i oresgyn yr ofnau sydd ganddi.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>(a)</td><td>Esboniwch sut gall hunan-barch ddylanwadu ar ddatblygiad seicolegol.</td><td></td><td>6</td><td></td><td>6</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td>Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Hunan-barch:<br>• sef gwerthusiad unigolyn o'i hunan-werth ei hun<br>• nid yw'n statig ac yn sefydlog ond gall newid drwy gydol bywyd<br>• mae'n datblygu o'r ffordd mae unigolion yn cael eu trin wrth dyfu i fyny<br>• mae'n dylanwadu ar gyflwr meddwl unigolion sydd, yn ei dro, yn dylanwadu ar ymddygiad, e.e. y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud a'r camau maen nhw'n eu cymryd wrth iddynt symud drwy fywyd.<br><br>Unigolion â hunan-barch isel:<br>• gallan nhw deimlo'n wael amdanyn nhw eu hunain, yn annigonol, yn arbennig mewn sefyllfaoedd cymdeithasol<br>• yn aml, bydd ganddyn nhw deimladau o hunan-werth isel yn dilyn unrhyw 'fethiant' a gallan nhw ddod yn besimistaidd, beio eu hunain ac yn amharod i wynebu heriau newydd<br>• byddan nhw o bosibl yn gyflawnwyr isel<br>• byddan nhw o bosibl yn dioddef o iselder.<br><br>Unigolion â hunan-barch uchel:<br>• yn aml, bydd ganddyn nhw farn gadarnhaol amdanyn nhw eu hunain a'u galluoedd<br>• mae'n bosibl y byddan nhw'n fwy penderfynol, yn fwy hyderus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol<br>• gallan nhw fod yn fwy llwyddiannus wrth feithrin perthnasoedd<br>• yn dueddol o fod yn frwdfrydig ac yn fwy parod i wynebu heriau newydd, gan gredu y gallan nhw gyflawni eu nod(au)<br>• byddan nhw o bosibl yn gyflawnwyr uchel<br>• bydd llwyddiant yn cynyddu eu hyder a'u hunan-werth.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall.</td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o sut gall hunan-barch ddylanwadu ar ddatblygiad seicolegol<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniad o hunan-barch. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos;<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut gall hunan-barch ddylanwadu ar ddatblygiad seicolegol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cysyniad o hunan-barch. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o sut gall hunan-barch ddylanwadu ar ddatblygiad seicolegol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniad o hunan-barch. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae Marion wedi penderfynu ymuno â grŵp hunangymorth i'w helpu i reoli ei gorbryder.*<br><br>*Disgrifiwch fanteision ymuno â grŵp hunangymorth i helpu rhywun i reoli gorbryder.* | 8 | | | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae grŵp hunangymorth yn cynnwys unigolion â phrofiad uniongyrchol o fater penodol, megis gorbryder.<br><br>Gallai manteision ymuno â grŵp hunangymorth i helpu i reoli gorbryder gynnwys y canlynol.<br>Gall unigolion:<br>• deimlo nad ydynt ar eu pen eu hunain<br>• rhannu profiadau<br>• cael y cyfle i siarad â phobl eraill sy'n deall eu pryderon<br>• gallu trafod y gwahanol strategaethau mae unigolion eraill yn eu defnyddio i oresgyn eu pryderon a rhoi cynnig ar rai ohonynt eu hunain<br>• gallu rheoli eu hofnau a'u hemosiynau yn well<br>• cael gwybodaeth a chyngor am sefydliadau a gwasanaethau eraill a fyddai'n gallu eu helpu<br>• cael y cyfle i ddatgelu eu hofnau a'u pryderon heb i bobl eraill eu barnu<br>• dod i deimlo eu bod wedi'u grymuso a rheolaeth ganddyn nhw<br>• gwella eu sgiliau ymdopi.<br><br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o egwyddorion grwpiau hunangymorth<br>• dealltwriaeth hyderus o fanteision posibl mynychu grŵp hunangymorth er mwyn rheoli pryder. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o egwyddorion grwpiau hunangymorth<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o fanteision posibl mynychu grŵp hunangymorth er mwyn rheoli gorbryder. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion grwpiau hunangymorth<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o fanteision posibl mynychu grŵp hunangymorth er mwyn rheoli pryder. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion grwpiau hunangymorth<br>• ychydig iawn o ddealltwriaeth o fanteision posibl mynychu grŵp hunangymorth. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Mae Marion hefyd wedi penderfynu dilyn cyngor ei meddyg ac mae wedi gwneud apwyntiad i weld cwnselydd sy'n defnyddio therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT).*<br><br>*Gwerthuswch fanteision ac anfanteision therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) i Marion.* | | | 8 | 8 |
| | | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>Nodweddion allweddol CBT (gellir eu nodi yng nghyd-destun mantais neu anfantais):<br>• mae'n gryno ac yn defnyddio terfynau amser<br>• mae'n canolbwyntio ar beth sy'n digwydd yn y presennol yn hytrach na'r gorffennol<br>• mae ganddo strwythur pendant<br>• nid yw'r berthynas â'r therapydd yn greiddiol i'r driniaeth<br>• mae gwaith yn parhau y tu allan i'r ystafell therapi<br>• mae'n gydweithredol – mae'r unigolyn a'r therapydd yn cydweithio er mwyn pennu nodau.<br>Manteision CBT i Marion:<br>• mae'n gryno ac yn canolbwyntio ar nodau – dylai hyn alluogi Marion i ymdopi â'i hofn a chael ei derbyn i gael llawdriniaeth ar gyfer clun newydd o fewn cyfnod cymharol fyr o amser<br>• therapi mwy fforddiadwy (am ei fod yn para am gyfnod byrrach)<br>• grymuso – gellir rhoi'r technegau ar waith ar ôl i'r therapi ddod i ben. Gallai hyn fod o fudd i Marion os bydd angen triniaeth feddygol bellach arni yn y dyfodol<br>• cefnogaeth wyddonol gadarn o blaid ei effeithiolrwydd, felly mae'r dull yn debygol o fod yn llwyddiannus i Marion<br>• cydweithredol – mae'r unigolyn a'r therapydd yn gweithio fel tîm felly dylai Marion deimlo ei bod yn cael cefnogaeth yn ystod y therapi.<br>Anfanteision CBT i Marion:<br>• gall deimlo'n arwynebol – dim ond materion cyfredol mae'n ymdrin â nhw ac mae'n anwybyddu materion sy'n deillio o blentyndod yr unigolyn, a allai fod yn cael dylanwad sylweddol ar ymddygiad Marion heddiw<br>• gallai fod yn anodd i Marion - na fydd o bosibl yn teimlo'n ddigon iach neu'n meddu ar ddigon o hunan-gymhelliant i roi'r sgiliau sydd eu hangen arni ar waith<br>• mae'n ystyried yr angen i'r unigolyn newid ac yn anwybyddu problemau ehangach fel cymdeithas neu deuluoedd. Gallai ei theulu neu gymdeithas ehangach fod yn dylanwadu ar ofn Marion ac mae'n bosibl nad ymdrinnir â'r dylanwadau hyn.<br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Gwerthusiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am fanteision ac anfanteision CBT i Marion<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddorion CBT. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Gwerthusiad da sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am fanteision ac anfanteision CBT i Marion<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddorion CBT. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am fanteision ac/neu anfanteision CBT i Marion<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion CBT. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o dystiolaeth o farnau am fanteision neu anfanteision CBT i Marion<br>• ychydig iawn o ymdriniaeth ag egwyddorion CBT. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | *Mae Edith yn 91 oed ac mae dementia arni hi. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty ar ôl cwympo. Pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty, dywedodd ei theulu ei bod weithiau'n ceisio bwrw pobl.*<br>*Ar ôl cyfarfod â'r staff, cytunwyd y dylai Edith ymuno â'r 'Cynllun Pili Pala', sef dull cadarnhaol a rhagweithiol o ofal a chymorth sydd ar gael yn yr ysbyty.* | | | | |
| | *Disgrifiwch bwrpas defnyddio dull cadarnhaol a rhagweithiol a dadansoddwch effaith bosibl defnyddio'r dull hwn i gefnogi oedolion ag ymddygiad sy'n herio.* | 8 | | 10 | 18 |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br>Mae'r 'Cynllun Pili Pala' yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol at ofal a chymorth sy'n anelu at wella diogelwch a llesiant unigolion drwy ddefnyddio ymateb cadarnhaol a phriodol i bobl â nam ar eu cof ac sy'n golygu y gall unigolion â dementia ofyn am ymateb o'r fath drwy symbol pili pala bach ar eu nodiadau.<br>Mae pwrpas dull cadarnhaol a rhagweithiol yn cynnwys gweithio gydag unigolion er mwyn gwneud y canlynol:<br>• darparu gofal a chymorth wedi'i bersonoli drwy siarad â'r teulu a ffrindiau er mwyn dod i wybod mwy am fywyd yr unigolyn<br>• goresgyn unrhyw anawsterau cyfathrebu a all fod gan unigolyn fel bod modd ei gefnogi a gallu deall ei anghenion a'i ddymuniadau<br>• deall sut mae'r unigolyn yn teimlo a pham ei fod yn ymateb fel y mae<br>• rhoi newidiadau priodol ar waith ac ymyrryd yn gynnar<br>• helpu i atal sefyllfaoedd anodd drwy fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n gweithio fel triger ac yn gallu arwain at ymddygiad heriol gan unigolyn<br>• deall beth mae angen ei gynllunio a'i roi ar waith er mwyn cefnogi'r unigolyn i reoli gofid a dicter<br>• defnyddio strategaeth gefnogi weithredol, sy'n berson-ganolog<br>• trefnu gweithgareddau gan ystyried hoff bethau a chas bethau'r unigolyn.<br>Effaith defnyddio dull gweithredu cadarnhaol a rhagweithiol yw:<br>• y caiff adnoddau priodol eu defnyddio gan y staff sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n debygol o fod yn fwy llwyddiannus wrth gefnogi'r unigolyn<br>• y gall fod gwelliant o ran ansawdd bywyd yr unigolyn drwy hybu cynhwysiant a chyfranogiad<br>• y gall yr unigolyn nodi cryfderau a chyflawni ei ganlyniadau personol o ran ei iechyd a'i les, a meithrin gwydnwch<br>• gellir cynnig cyfle i'r unigolyn feithrin sgiliau byw'n annibynnol.<br>Rhowch gredyd am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau ac egwyddorion perthnasol. | **9-10 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o effaith bosibl dull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl ag egwyddorion dull cadarnhaol a rhagweithiol.<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae’r gwaith ysgrifennu wedi’i strwythuro’n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o ddull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o gysyniadau ac egwyddorion perthnasol. | **6-8 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o effaith bosibl dull cadarnhaol a rhagweithiol i helpu oedolion ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth drylwyr ag egwyddorion dull cadarnhaol a rhagweithiol.<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau ac egwyddorion perthnasol. | **3-5 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o effaith bosibl dull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• ymdriniaeth syml ag egwyddorion dull cadarnhaol a rhagweithiol.<br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg.<br>Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth o ddull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• ychydig iawn o ddealltwriaeth o egwyddorion a chysyniadau. | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o dystiolaeth o ddehongli effaith bosibl dull cadarnhaol a rhagweithiol i gefnogi oedolion ag ymddygiad heriol<br>• ychydig iawn o ymdrin ag egwyddorion dull rhagweithiol, cadarnhaol.<br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu**

**Uned 5**

| **Cwestiwn** | | | **Cynnwys y fanyleb (prif ffocws)** | | | | **Dyraniad marciau** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.5.1 | 2.5.2 | 2.5.3 | | | | | |
| **1** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 6 | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (a)/(b) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| **2** | (a) | | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| | (b) | | 14 | | | (a)(b) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| Adran A | | | 20 | 20 | 0 | | **40** | **18** | **8** | **14** |
| **3** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (b) | | | 8 | | (b) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | | | | 18 | (a) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | | 18 | 16 | 26 | | **60** | **22** | **12** | **26** |
| Cyfanswm marciau | | | **38** | **36** | **26** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



ⓗ WJEC CBAC Cyf.